

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Rhodfa'r Gorllewin - Caewal Road - Croesfan Twcan Arfaethedig
Adroddiad Ymgynghori

Rhif project: CO18269

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 10/08/2019 a 30/08/2019.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan fo modd.

O'r 50 eiddo yr ymgynghorwyd â hwy a'r 4 hysbysiad safle a godwyd ar y safle, cafwyd 13 o ymatebion unigol.

14 O blaid y cynllun a rhoddodd rhai sylwadau/awgrymiadau ychwanegol

Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion yn erbyn y cynllun, ond roedd ychydig o sylwadau sydd wedi'u trafod isod.

Crynohir y pryderon a'r sylwadau isod mewn ysgrifen *italig*, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliaid

O ystyried yr isod, argymhellir bwrw ymlaen â gweithredu'r cynllun i gael Croesfan Twcan a newid y Cyfyngiad Cyflymder ar Rodfa'r Gorllewin o 40mya i 30mya (yn amodol ar y broses Gorchymyn Rheoli Traffig cyfreithiol).

Materion yn ymwneud â Llygredd

"Fodd bynnag, gan fod gan y croesfan arfaethedig botensial i effeithio'n andwyol ar eiddo preswyl cyfagos o ran llygredd golau, lefelau sain uwch ac ansawdd aer, allwch chi roi manylion i mi o'r astudiaethau a gynhaliwyd i asesu effeithiau'r cynllun arfaethedig a'r camau lleddfu a gynigiwyd."

Ymateb -

Cydnabyddir mai allyriadau traffig ffordd (gronynnau (DG) a nitrogen deuocsid cynradd/eilradd (NO₂)) yw'r ffactor sy'n cyfrannu at ansawdd aer gwael fwyaf yng Nghaerdydd. Mae Cyngor Caerdydd yn ymwybodol iawn o'r pryderon am yr effeithiau ar ansawdd yr aer ac wedi ymrwmo i gyrraedd lefelau mor isel ag sy'n ymarferol bosibl. Mae wedi ei gofnodi bod lefel yr allyriadau yn lleihau wrth fynd ymhellach i ffwrdd o myl y ffordd ac felly bydd unrhyw gynnydd lleol yn cael ei leihau wrth unrhyw eiddo preswyl cyfagos. Mae angen i'r Cyngor gydbwysu'r manteision a ddaw o fesurau diogelwch ffyrdd, o ran achub bywydau a lleihau anafiadau, ag unrhyw gynnydd bach mewn allyriadau y gallai'r mesurau hyn arwain ato. Er mwyn gwella ansawdd yr aer, yn ogystal â chyfrannu at welliannau iechyd yng Nghaerdydd, mae cynyddu'r defnydd ar ddulliau teithio llesol a chynaliadwy yn hanfodol.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r pryderon am iechyd plant sy'n gysylltiedig â phroblemau llygredd aer a ddaw o draffig ger ysgolion. Er ein bod yn cydnabod bod llifoedd traffig uwch yn ystod amseroedd cymudo prysuraf y bore a'r prynhawn yn achosi lefelau uwch o grynodiadau, mae'r Cyngor wedi monitro sawl lleoliad ledled Caerdydd sy'n nodi bod y lefelau hyn yn y lleoliadau hyn yn is na safonau ansawdd aer NO₂.

Sylwadau ar gyflymderau cerbydau

“Byddwn yn cytuno bod problem o ran traffig yn teithio’n rhy gyflym yn y ddau gyfeiriad: heblaw am oleuadau traffig oes unrhyw gynlluniau i orfodi ar hyn? Rwy’n meddwl bod y camerâu cyflymder ar yr A48 drwy Trelai yn effeithiol, a hoffwn weld yr un peth yn digwydd yma.”

“Hoffwn awgrymu gosod camerâu cyflymder ar Rodfa’r Gorllewin i sicrhau bod y cyfyngiad cyflymder newydd yn cael ei weithredu.”

Ymateb - Mae gorfodi cyflymder yn fater i’r Heddlu ac nid oes gan y Cyngor rymoedd i’r perwyl hwnnw. Dim ond os yw’r safle’n bodloni meini prawf Llywodraeth Cymru all camerâu cyflymder a camerâu goleuadau coch gael eu gosod, mae rhagor o wybodaeth ar <https://gosafe.org/?lang=cy> gan ddewis y ddolen “os ydym yn gosod camerâu a pham”.

Materion ynghylch cerbydau’n troi i’r dde allan o Caewal Road ac yn cyflawni troadau pedol

Dylai gosod y croesfan hefyd osgoi ceir sy’n dod o ben deheuol Caewal Rd i Rodfa’r Gorllewin tua’r dwyrain a chyflawni troadau pedol er mwyn gyrru tua’r gorllewin.

“Rwy’n croesawu gwelliannau i gerddwyr, fodd bynnag, rwy’n poeni y bydd gwaredu’r ynys ganolog o bosibl yn rhoi cerddwyr mewn mwy o berygl.

Ar sawl achlysur rwyf wedi cael profiad o yrwyr (yn enwedig tacsis), yn troi i’r dde ar y ffordd ddeuol o ran isaf Caewal Road drwy gyflawni troad pedol o amgylch yr ynys ganolog neu hyd yn oed gyrru ar ochr anghywir y ffordd.

Rwyf wedi cael profiad o geir yn gyrru o’r un ochr â Caewal Road ar draws yr ynys i barhau drwy ran uchaf Caewal Road. Mae’n syndod nad yw cerddwr wedi cael ei frifo hyd yma! Os yw’r ynys yn cael ei gwaredu, bydd yn haws i’r gyrrwyr hyn droi i’r dde yn anghyfreithlon neu i fynd yn syth ar draws y ffordd ddeuol.”

Ymateb - Bydd ynys ganolog newydd yn cael ei hailadeiladu’n rhan o’r croesfan twcan newydd. Bydd yr ynys yn ehangu dros led cyfan y gyffordd â Caewal Road a bydd yn atal cerbydau rhag troi i’r dde o ochr ddeheuol Caewal Road.

Ymateb - Does dim arwydd ‘dim troad pedol’ ar waith ar yr ynys ganolog bresennol fydd yn cael ei disodli pan fydd gwaith adeiladu’r cynllun arfaethedig wedi’i gwblhau. Mae’r mater hwn wedi’i anfon ymlaen at Dîm Gorfodaeth Sifil y Cyngor gan ofyn iddynt asesu a oes cyfiawnhad dros orfodi.

Materion yn ymwneud â lleoliad y Croesfan

“Rhywbeth allech chi ystyried newid yw gallaf weld yn y diagram bod y croesfan twcan yn cael ei leoli ar ochr orllewinol cyffordd Rhodfa’r Gorllewin/Caewal Road. Rwy’n credu bod hwn yn annog gyrrwyr sy’n teithio o’r dwyrain tua’r gorllewin ar Rodfa’r Gorllewin i droi i lawr Caewal Road i osgoi unrhyw oedi o ran croesi. Mae Caewal Road (i’r de o Rodfa’r Gorllewin) eisoes wedi mynd yn brysur ofnadwy a gall hyn waethygu’r sefyllfa. Fodd bynnag pe byddai’r croesfan twcan wedi’i leoli ar ochr ddwyreiniol y gyffordd, bydd y broblem bosibl hon yn cael ei hosgoi heb effeithio ar effeithiolrwydd y croesfan arfaethedig. Byddai’r effaith ar Caewal Road tua’r gogledd o Rodfa’r Gorllewin yn aros yr un peth oherwydd nid yw rhan ogleddol Caewal Road yn cael ei defnyddio fel llwybr i dorri trwodd fel yr ochr ddeheuol.

“Rwy’n meddwl bod lleoliad y groesfan yn addas i gerddwyr, ond fel croesfan a rennir mae angen iddi gael ei symud tua’r Dwyrain mor bell â phosibl tuag at y gyffordd gan y byddai’r ardal fynediad a rennir o bosibl yn fan gwrthdaro i gerddwyr a beicwyr.”

Ymateb -

Does dim modd lleoli’r groesfan tua dwyrain y gyffordd oherwydd mae angen i groesfannau ger cyffyrdd gael eu symud yn ôl o gyffordd ar bellter o 5m. Wedi dweud hynny, oherwydd y coed aeddfed tua Dwyrain y gyffordd ar yr ochr ogleddol, byddai’n well ei leoli tua Gorllewin y gyffordd gan fod hyn hefyd yn osgoi gwrthdaro gyda cherbydau a cherddwyr sy’n troi ar dde Caewal Road.

Mae hyn hefyd wedi’i drafod yn fanwl â thîm Telemateg y Cyngor ac maent yn cytuno mai lleoli’r groesfan tua’r gorllewin yw’r opsiwn gorau oherwydd gwasanaethau presennol yn y llwybr gerdded bresennol.

Mae arolygon cerddwyr wedi’u cynnal ac mae’r rhain wedi nodi bod cerddwyr yn croesi’r ffordd wrth y lleoliad hwn, a chredir bod gosod croesfan lle mae’n gwasanaethu’r llwybr a ffeirir o’r bwys uchaf.

Materion yn ymwneud â pharth 20mya

“Byddwn yn argymhell yn gryf bod y Cyngor yn newid y cyfyngiad cyflymder ar ddwy ran Caewal Rd o 30mya i 20mya i sicrhau diogelwch ffordd ar lwybr sy’n cael ei defnyddio’n aml i bentref ac ysgolion Llandaf. O ystyried bod cyfyngiad cyflymder Rhodfa’r Gorllewin yn newid i 30mya, mae’n hurt bod disgwyl i gyfyngiad cyflymder lôn ochr fyr iawn fod yr un peth.”

Ymateb - Mae’r Cyngor wrthi’n rhoi cyfyngiadau cyflymder o 20mya ar waith yng Nghaerdydd. Mae’r rhain yn rhan o strategaeth i newid cyfyngiadau cyflymder. Os bydd arian ar gael, caiff y cynlluniau ardal 20mya eu rhoi ar waith dros nifer o flynyddoedd, gan ddechrau’n gyntaf yn yr ardaloedd i’r de o’r A48 gan symud yn raddol allan o’r ddinas. Wedi cwblhau mesurau yn yr ardaloedd i’r de o’r A48 bydd y Cyngor wedyn yn ystyried y dull gorau ar gyfer ardaloedd mewn rhannau eraill o’r ddinas gan gynnwys Caewal Road.

Sylwadau ar lygredd golau posibl

“Fodd bynnag, gan fod gan y groesfan arfaethedig botensial i effeithio’n andwyol ar eiddo preswyl cyfagos o ran llygredd golau”

Ymateb -

Mae’r goleufâu arfaethedig yn ymgorffori goleuadau LED yn eu dyluniadau, ac felly maent yn disgleirio yn nghyfeiriad traffig sy’n nesáu, ac nid yw llawer o olau’n disgleirio o ochrau’r goleufa i eiddo cyfagos.

Materion yn ymwneud â bwrdd dyrchafedig ychwanegol yn Caewal Road-St Michaels Road

“Nododd breswylwyr bryderon am gyflymder cerbydau ar Caewal Road ger St Michaels Road, gan ofyn am fesurau arafu traffig ychwanegol”.

Mae'r cynnig yn cael ei ddatblygu trwy ddefnyddio arian gan Lywodraeth Cymru dan ei Grant Diogelwch ar y Ffyrdd, nid yw'n bosibl i ni ddefnyddio'r arian at ddibenion eraill.

Gallwn roi gwybod i chi ein bod ni eisoes wedi ymchwilio i'r mater hwn. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad fod y mater yn peri pryder, ond nad yw o flaenoriaeth digon uchel i gael ei gyflwyno am gyllid cyfalaf penodol gan y Cyngor neu Lywodraeth Cymru. Yn anffodus, mae ein cyllid yn brin iawn ar hyn o bryd ar gyfer gwaith gwella priffyrdd, felly mae'r lleoliad hwn wedi'i gynnwys yn ein cronfa ddata fel Ardal sy'n Peri Pryder a chaiff y mater ei drin os bydd cyfleoedd cyllido amgen yn codi.

Materion yn ymwneud â Marciau ar y Ffordd sydd wedi gwisgo.

Gallaf gadarnhau y bydd y llinellau wedi gwisgo'n cael eu hychwanegu at raglen waith i'r dyfodol ac yn cael ei gweithredu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

Cefnogaeth dros y cynllun

“Rydym yn llwyr cefnogi'r cynnig hwn. Rydym yn byw'n agos ac yn cerdded ein merch i ac o Ysgol Gynradd Dinas Llandaf. Bydd hyn yn welliant sylweddol.”

“Rwy'n croesawu gwelliannau i gerddwyr”

“Rwy'n falch iawn o weld elfen gerddwyr y cynllun hwn. Mae croesi'r Rhodfa, yr ydw i'n gwneud o leiaf dwywaith yr wythnos, yn beryg iawn. Byddaf yn falch iawn o weld y Twcan, yn ogystal â'r bobl ifanc sy'n ei ddefnyddio bob dydd”

Croesewir cyflwyno cyfyngiad cyflymder 30mya, yn yr un modd ag y mae adeiladu cyfleuster croesi mwy diogel mewn egwyddor.”

“Hapus i gefnogi'r gostyngiad cyflymder a'r croesfan arfaethedig”.

“Ymhellach i'r cynllun uchod, gallaf gadarnhau nad ydym yn gwrthwynebu cyn belled bod y Groesfan Twcan yn parhau ar ochr orllewinol y gyffordd â Caewal Road. Yn ogystal, rydym yn cytuno i'r gostyngiad cyflymder arfaethedig i 30mya.”

“Rydym yn cefnogi'n gryf yr awgrym o gre croesfan newydd sy'n cael ei reoli gan oleuadau”


“Rwy'n ysgrifennu atoch i gefnogi'n llawn y gwelliannau arfaethedig. Fel preswlydd lleol mae fy nheulu a minnau'n aml yn gorfod croesi'r A48 o Caewal Rd ar ein ffordd i Landaf (ysgolion, siopau a sgowts) ac yn ystyried y groesfan yn beryglus iawn, heb lawer o amddiffyniad i gerddwyr sy'n styc ar ynys draffig cul iawn heb fesurau diogelwch, gyda cherbydau'n teithio'r naill ochr a'r llall ar gyflymder o 40mya.”

*“Hoffwn ymateb fy mod yn **cefnogi** y groesfan arfaethedig a'r newid i'r cyfyngiad cyflymder”*

“Rwy'n falch o ddysgu bod cynlluniau i osod croesfan twcan ar draws yr A48 ger Caewal Road yn Llandaf”

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau' neu ffoniwch 029 2087 3354 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **30/8/2019**



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link or telephone 029 2087 3354 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **30/8/2019**